***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Paragraff 8. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 1

## YMGORFFORI SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## **RHAN 2**

## AELODAU ANWEITHREDOL

*Telerau penodi eraill*

8 (1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol bennu telerau penodi eraill ar gyfer penodiad o dan y Rhan hon o'r Atodlen hon (yn ddarostyngedig i baragraff 9).

(2) Caiff y telerau hynny gynnwys cyfyngiadau ar y canlynol—

(a) y swyddi (gan gynnwys swyddi y caniateir penodi personau iddynt, eu hargymell ar eu cyfer neu eu henwebu ar eu cyfer gan neu ar ran y Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol)—

(i) y caiff aelod anweithredol eu dal tra bo'r person hwnnw yn aelod, neu wedi iddo beidio â bod yn aelod;

(ii) y caiff cadeirydd SAC eu dal tra bo'r person hwnnw'n gadeirydd, neu wedi iddo beidio â bod yn gadeirydd, a

(b) y cytundebau a'r trefniadau eraill (gan gynnwys cytundebau a threfniadau gyda'r Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol, neu gyrff neu bersonau eraill sy'n gweithredu ar ran y Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad)—

(i) y caiff aelod anweithredol fod yn barti iddynt tra bo'r person hwnnw yn aelod, neu wedi iddo beidio â bod yn aelod;

(ii) y caiff cadeirydd SAC fod yn barti iddynt tra bo'r person hwnnw'n gadeirydd, neu wedi iddo beidio â bod yn gadeirydd.

(3) Ond dim ond tra bod person yn aelod anweithredol, ac am uchafswm o 2 flynedd yn dechrau ar y diwrnod y mae person yn peidio â bod yn aelod anweithredol, y caniateir gorfodi'r cyfyngiadau hyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 8 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I2** Atod. 1 para. 8 mewn grym ar 4.7.2013 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 2(u)(viii)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Paragraff 8.